

Canllaw myfyrwyr i SAFMEDS a Dysgu Manwl

Beth yw SAFMEDS?


Ymarfer dyddiol a strategaeth asesu yw *Say-All-Fast-Minute-Every-Day-Shuffled* (SAFMEDS). Gan ddefnyddio set o gardiau fflach gyda chwestiwn mathemateg ar y tu blaen a'r ateb cywir ar y tu ôl, gallwch ddilyn y camau yn yr arweiniad hwn i'ch helpu i (1) ateb cwestiynau mathemateg yn gyflym a chywir (h.y. yn rhugl) a (2) adnabod cwestiynau sy'n peri trafferthion.

Beth yw Addysgu Manwl?

Mae addysgu manwl yn ddull o ddiffinio, mesur a chofnodi dysgu. Bydd siartio eich sgorau SAFMEDS yn fodd i chi greu darlun gwledol o'ch cynnydd. Gallwch ddefnyddio hyn i osod targedau realistig ac i'ch arwain tuag at feistroli pob pecyn SAFMEDS.

Bydd arnoch angen:

1. **Amserydd** Rydym yn argymhell defnyddio amserydd sy'n cyfrif ar i lawr ac sy'n gwneud sŵn pan fydd 1 munud ar ben. Ond, os na allwch gael gafael ar un fe fydd stopwatsh, amserydd tywod neu wyneb cloc yn



iawn hefyd.

2. **Pecyn o gardiau SAFMEDS** Gallwch lawr lwytho ac argraffu PDFs parod <<http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru/saf-meds-packs/>> o'r safwe,




neu wneud eich pecyn eich hunan gartref.

3. **Pensel a thaflen o bapur** i gofnodi ei sgôr.




4. Rydym yn argymhell eich bod yn creu **mat** A4 i osod y cardiau arno. Bydd yn gosod y cardiau 'cywir' ar un hanner, a'r cardiau 'dim eto' ar yr hanner arall.



5. **Siart** i allu gweld eich cynnydd. Gallwch lawr lwytho fersiwn Excel o'r safwe.

Sut i



ddefnyddio strategaeth SAFMEDS:

Gwylwch y fidio hwn i weld strategaeth SAFMEDS ar waith:

<https://www.youtube.com/watch?v=wpnrc7Hrq34>

CAM 1: Cymysgwch y cardiau. Mae hyn yn eich atal rhag dysgu trefn yr atebion.

CAM 2: Cychwynnwch yr amserydd am 1-munud.

CAM 3: Gweithiwch drwy'r cardiau **mor gyflym ag y gallwch**

- Darllenwch y cwestiwn yn eich pen a dweud yr ateb
- Trowch y cerdyn drosodd i wirio'r ateb. Os yw'r ateb yn gywir, rhowch y cerdyn yn y pentwr 'cywir'. Os nad ydych yn gwybod beth yw'r ateb neu mae'r ateb yn anghywir, rhowch y cerdyn yn y

pentwr 'dim eto'. Mae'n iawn pasio cardiau os ydych yn ansicr!

CAM 4: Ar ôl 1-munud, bydd angen cyfri nifer y cardiau yn y pentwr 'cywir' a'r pentwr 'dim eto'. Ysgrifennwch y sgôr hwn ar ddarn o bapur. Rydym yn defnyddio'r term 'dim eto' yn hytrach na 'chamgymeriadau' er mwyn cadw pethau'n gadarnhaol. Mae'r cardiau hyn yn dangos y cwestiynau yr ydych angen eu hymarfer, neu ddysgu. Peidiwch â digalonni rhoi cardiau yn y pentwr hwn, bydd yn gyfle i chi ymarfer eich rhuglder.

CAM 5: Ewch drwy unrhyw gardiau sydd yn y pentwr 'dim eto'. Gallwch wneud hyn gyda rhywun arall os ydych angen cefnogaeth. Mae hyn yn gyfle da i weld beth ydych yn gwybod yn barod a ble rydych angen rhagor o gymorth.

CAM 6: Ailadrodd camau 1-5 tan rydych wedi cwblhau 3 amseriad.


- Rydym yn argymhell eich bod yn gosod her i'ch hunain i wella eich sgôr orau bob dydd.

CAM 7: Cymerwch eich sgôr uchaf am y diwrnod a'i gofnodi ar y siart Excel. Edrychwch ar y ddogfen sydd wedi'i labelu 'Sut i ddefnyddio'r siart Excel'. Mae gan hwn luniau i'ch helpu chi i fewnbynnu a gweld eich data.

CAM 8: Adolygwch y siart ar ddiwedd bob wythnos er mwyn gofalu eich bod dal i wneud cynnydd gyda'r pecyn SAFMEDS.


Siartio eich data a chreu darluniau dysgu:

Trwy gofnodi eich sgorau yn y ffeil Excel, byddwch yn gallu gweld eich cynnydd. Dros amser, bydd eich sgorau yn dechrau creu darlun o'ch dysgu. Mae tri categori o ddarluniau dysgu: Gwella, Cynnal a Gwaethygu. Bydd y rhan hon yn eich helpu i ddeall ystyr bob darlun a'r hyn gallwch chi roi cynnig arno i gefnogi eich datblygiad rhuglder mathemategol.



GWELLA:


Os ydych yn gallu ateb mwy o gwestiynau'n gywir bob dydd, yn gwneud llai o gamgymeriadau ac/neu'n mynd drwy fwy o gardiau mewn 1-munud, rydych yn gweithio tuag at gyflawni eich nodau rhuglder. Daliwch ati!




Darluniau dysgu, addaswyd o Lindsley, O. R. (1995). Precision Teaching: By teachers for children. Journal of Precision Teaching, 7(2), 9-17.

CYNNAL:


Os yw eich sgôr yn aros yn ei hunfan ar y siart am dri diwrnod yn olynol, efallai y bydd angen i chi ofyn am gymorth ychwanegol.



Os ydych yn cyflawni eich nod rhuglder yn gyson, a hynny heb wneud camgymeriadau, efallai eich bod yn barod i symud i becyn anoddach. Ewch drwy'r pecyn heb amserydd i wirio eich bod yn gallu ateb y cardiau i gyd, yn rhugl.



Os yw eich nifer o atebion 'cywir' wedi cyrraedd penllanw islaw'r nod rhuglder, ac nid ydych yn gwneud camgymeriadau, ewch drwy'r cardiau gydag oedolyn neu ffrind, heb amserydd. Ceisiwch weld a oes cardiau penodol yr ydych yn betrusgar gyda nhw'n gyson. Efallai bydd angen i chi dysgu strategaethau ychwanegol er mwyn i chi allu ateb y cwestiynau hyn yn gyflym (e.e. rhoi'r rhif mwyaf yn dy ben a chyfrif ymlaen). Os nad hyn yw'r achos, efallai bod angen i chi ofyn am gefnogaeth i weithio drwy'r cardiau'n gyflymach.




Os nad ydych yn ateb llawer o gardiau, a hynny'n gyson, efallai bod y pecyn yn rhy anodd i chi. Ewch drwy'r pecyn cyfan heb amserydd i ganfod beth ydych yn ei wybod. Efallai bydd angen pecyn haws arnoch chi.

GWAETHYGU:

Yn gyffredinol, os yw eich data yn dangos patrwm sy'n gwaethygu, naill ai mae gormod o bethau yn yr amgylchedd i dynnu eich sylw neu mae angen arnoch gymhelliant ychwanegol i fynd i'r afael â strategaeth SAFMEDS. Gwiriwch eto nad yw'r pecyn yr ydych yn gweithio arno yn rhy anodd drwy fynd drwy'r cardiau i gyd, heb amserydd, er mwyn canfod beth rydych yn ei wybod a beth sydd yn anodd. Addaswch y pecyn os oes angen.

Cofiwch mai gêm yw'r strategaeth SAFMEDS. Efallai y byddai'n fuddiol gosod her sgor dyddiol.




Awgrymiadau ar gyfer gwneud cardiau SAFMEDS gartref:

Mae peth tystiolaeth o waith ymchwil yn awgrymu bod manteision i blant greu eu cardiau SAFMEDS eu hunain. Trwy greu'r cardiau, rydych yn adolygu cynnwys y pecyn, fydd efallai yn eich helpu i adnabod, dysgu a chofio peth o'r wybodaeth

¹. Byddwch o bosib yn gwerthfawrogi'r cardiau hyn ac yn llai tebygol o'u colli ². Felly, os na allwch argraffu'r pecynnau sydd ar gael ar ein safwe), gallwch greu rhai eu hunain. Dyma rai awgrymiadau ar gyfer creu pecynnau SAFMEDS gartref:


1. Beth allwch chi ddefnyddio i greu'r cardiau? Mae unrhyw bapur/cardiau yn iawn. Gall fod yn bapur plaen neu efo llinellau, neu hyd yn oed gardiau indecs wedi'u torri'n barod. Gyda thaflen A4, plygwch y papur 4 gwaith i greu 16 cerdyn fesul taflen.
2. Defnyddiwch y PDFs ar y safwe



<http://cefnogaeth.gwegogledd.cymr>

[u/safmeds-packs/](#) fel templed i chi gopïo fel bod pob pecyn yn cynnwys digon o gardiau a bod y cwestiynau a'r atebion yn gywir.

3. Efallai y byddwch am lunio llinell mewn lliw i lawr ochr dde *tu blaen* bob cerdyn (mae streipen lwyd ar y PDFs ar-lein). Bydd hyn yn haws i chi weld, yn sydyn, a yw'r cardiau i gyd y ffordd gywir cyn bob amseriad.



4. Mae'n bwysig na allwch weld yr atebion drwy'r cardiau. Rydym yn argymhell defnyddio pensel finiog i ysgrifennu'r atebion ar gefn y cardiau (yn enwedig os ydych chi'n defnyddio papur i'w creu). Dylech osgoi defnyddio pinnau ffelt.
5. Bydd angen sicrhau nad oes cliwiau ychwanegol i'r ateb ar y cardiau (e.e.

efallai y byddwch yn sylweddoli mai 8 yw'r ateb bob tro i gardiau â chornel wedi plygu). Rhaid cofio defnyddio llawysgrifen a lliwiau cyson.

¹ Cihon, T. M., Sturtz, A. M., & Eshleman, J. (2012). The effects of instructor-provided or student-created flashcards with weekly, one-minute timings on unit quiz scores in introduction to applied behavior analysis courses. *European Journal of Behavior Analysis*, 13(1), 47-57.

² Lindsley, O. R. (1996b). The four free-operant freedoms. *The Behavior Analyst*, 19(2), 199-210.